



RHONDDA CYNON TAF COUNCIL PWYLLGOR TRWYDDEDU

Minutes of the meeting of the Pwyllgor Trwyddedu held on Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2019 at 5.00 pm at the Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

County Borough Councillors - Pwyllgor Trwyddedu Members in attendance:-

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

Y Cynghorydd D Williams	Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd S Powderhill	Y Cynghorydd E Webster
Y Cynghorydd W Lewis	Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd A Cox	Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd P Howe	

Officers in attendance:-

Ms L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Diogelwch y Cyhoedd
Mr G Black, Rheolwr Cymunedau Diogel a Phartneriaethau Strategol
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Morgan, Swyddog Gorfodi Trwyddedu
Mr M Owen, Rheolwr trwyddedu Cynorthwyol
Ms R Hope, Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu a Diogelu Iechyd
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Trwyddedu
PC Whittle - Heddlu De Cymru

58 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T. Williams.

59 Cyhoeddiadau

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu'r Cynghorydd S. Bradwick yn ôl, yn dilyn cyfnod o salwch.

Roedd y Cadeirydd hefyd yn dymuno diolch ar ran y Pwyllgor i Reolwr Canolfan Oasis, Ms R. Gronow, a oedd wedi rhoi hyfforddiant manwl i'r Aelodau mewn perthynas â Thrais yn y Cartref.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd ddiweddariad i'r Aelodau ar yr ailstrwythuro diweddar sydd wedi bod yn adran Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned. Cafodd yr Aelodau wybod bod Mr G. Black wedi ymgymryd â'r rôl fel Rheolwr Partneriaethau yn ddiweddar ac o ganlyniad, byddai Ms R. Hope yn derbyn cyfrifoldeb portffolio ehangach, a fyddai'n ymgorffori rôl a dyletswyddau'r Adran Drwyddedu. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r newidiadau a amlinellwyd uchod yn cydfynd â'r newidiadau i rôl y Pwyllgor Trwyddedu, a fydd yn ystyried safleoedd

tyllu'r croen, ac unigolion. Nododd hefyd y byddai Mr G. Black a Ms R. Hope yn bresennol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol hyd nes y nodir yn wahanol.

60 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

61 Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn

PENDERFYNWYD nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn.

62 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2019 yn rhai cywir yn dilyn y newid canlynol:

- Cofnod Rhif 55 (5): **PENDERFYNODD** y Pwyllgor atal y Drwydded Yrru ar y Cyd Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat fel mesur cosb am gyfnod o fis ar unwaith, a'i bod yn ofynnol i'r Trwyddedai gael Tystysgrif BTEC ar gyfer Cludo Teithwyr o fewn cyfnod o 2 fis.

63 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 18.02.19 – 07.04.19:

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod 18 Chwefror 2019 tan 7 Ebrill 2019 a **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

64 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

65 Ystyried y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu gofrestru:

(Nodwch: Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, ar ôl datgan buddiant ynglŷn â'r cais uchod (Cofnod Rhif 60), gadawodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Fox y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon, a daeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D. Williams i'r Gadair).

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd fanylion y cais canlynol am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr LAC o Aberpennar ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais am Drwydded Yrru ar y Cyd Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

66 Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys data apeliadau/erlyniadau) ar gyfer y cyfnod 01.03.19 - 12.04.19:

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, dychwelodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Fox i'r cyfarfod, a daeth i'r Gadair).

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd ei hadroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 1 Mawrth 2019 tan 12 Ebrill 2019. **PENDERFYNODD** yr Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

67 Crynodeb o'r Trwyddedau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth awdurdod dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 18.02.19 - 07.04.19:

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Diogelwch y Cyhoedd adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 18 Chwefror 2019 and 7 Ebrill 2019.

PENDERFYNODD y Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

This meeting closed at 5.48 pm

**CLLR A FOX
CHAIR.**